

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Remote Microsoft Teams Meeting on Dydd Iau, 17eg Medi, 2020 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor L.Dymock (Chairman)
County Councillor A. Webb (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, A. Easson,
R. Harris, V. Smith, J.Treharne and S. Jones

Officers in Attendance

Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
Alan Burkitt, Swyddog Iaith a Chydraddoldeb
Judith Langdon, Arweinydd Cymunedau a Datblygu
Partneriaeth
Owen Wilce, Community and Partnership
Development Lead
Ryan Coleman, Community Focussed Schools
Business Manager
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu

APOLOGIES:

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored Cyhoeddus

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Cyflwyniad ynghylch yr Adolygiad o'r Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol - Craffu ar gynigion.

Rhoddodd y Swyddog Cath Fallon gyflwyniad ar y strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol, yn dilyn cyflwyniad byr gan y Cynghorydd Sara Jones. Cyhoeddwyd y strategaeth ddwy flynedd yn ôl fel dogfen fyw y gellir ei haddasu, rhoi ystyriaeth i ffactorau allanol a sicrhau ei bod bob amser yn berthnasol ac yn gymwys i aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas. Cafodd y strategaeth ei diwygio yr haf diwethaf yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau ac roeddem i fod i wneud yr un peth eleni ond cafodd y proses ei hymestyn oherwydd y pandemig. Bydd angen i'r heriau y byddwn yn anochel yn eu hwynebu fel canlyniad gael eu hadlewyrchu yn y fersiwn diweddaraf.

Mae'r strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â phobl, lle a ffyniant, sef y nod o roi cyfiawnder cymdeithasol wrth galon yr hyn a wnawn, gyda'r strategaeth yn rhaglen eang i roi'r weledigaeth ar waith. Rydym eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl leol, tra'n gweithio mewn partneriaeth gyda nhw. Rydym wedi ymrwmo i alluogi cymunedau cysylltiedig a gofalgwr i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol ond hefyd yn cyflawni ar gyfiawnder cymdeithasol, gwell ffyniant a gostwng anghydraddoldeb. Rydym eisiau galluogi gwasanaethau lleol gwell drwy gefnogi gwirfoddolwyr a gweithredu cymdeithasol.

Mae hyn yn gydnaws gyda blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ostwng anghydraddoldeb rhwng, ac o fewn, cymunedau yn ogystal â chefnogi pobl fregus, ac ystyried ein heffaith ar yr amgylchedd. Ymhellach, mae'n gydnaws gydag amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc, ac ymateb i

heriau a newidiadau demograffig. Mae hefyd yn ein galluogi i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da. Y tîm Cymuned a Datblygu Partneriaeth sy'n gyrru'r strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol, gan weithio fel pont rhwng anghenion a dymuniadau cymunedau. Daethom i'r casgliad fod gweithio ardal a datblygu cymunedol yn gweithio'n dda. Mae gan rai o'n clystyrau ardal fwy o ymgysylltu a nifer uwch yn mynychu nag eraill, ond rydym yn gweithio mewn amgylchedd lle mae cyfleoedd eraill i gysylltu.

Bu rhai datblygiadau cadarnhaol oherwydd gwaith partneriaeth y tîm, yn ein rhwydwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid a dulliau cydlyniaeth cymunedol, a fu'n hanfodol, yn arbennig yn ystod y pandemig, o ran sut ydym yn ymgysylltu gyda'n preswylwyr BAME. Bu'r Rhaglen Ysgolion Bro yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion, gwirfoddolwyr a rhieni i gasglu a defnyddio ein cyfalaf cymdeithasol hefyd yn gadarnhaol iawn.

Cyn Covid-19, teimlem fod angen i ni hyrwyddo'r cynllun yn fwy eang, yn fewnol ac yn allanol, ond gyda ffocws cryfach ar ddatblygu cymunedol. Mae 'Be Community' yn sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth a'r cyngor gorau oll i'n gwirfoddolwyr. Rydym hefyd yn cynyddu cyllid hyblyg i sicrhau y gallwn helpu pan welwn angen go iawn yn y gymuned. Gwelsom, wrth i ni ymrwymo fel awdurdod, y bydd cynghorau tref a chymuned yn dilyn. Teimlem ei bod yn bwysig edrych ar ein partneriaethau a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ofyn os yw ein strwythur partneriaeth yn rhy gymhleth, gyda meysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu, a sicrhau fod y gymuned yn bartner cyfartal.

Newidiodd ein gwaith yn sylweddol iawn ar ôl i'r pandemig daro, gyda'r ffocws yn symud i wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol yn siopa ar gyfer preswylwyr, mynd i nôl presgripsiynau ac yn y blaen. Cafodd hyn ei gydlynu drwy Rwydwaith Rhithiol Grŵp Gweithredu Gwirfoddolwyr. Sefydlwyd Tîm Recriwtio Diogel i sicrhau ein bod yn cynnal y gwiriadau cywir ar wirfoddolwyr. Fe wnaeth y Tîm Angen sicrhau fod y gefnogaeth gywir ar gael yn y lle cywir – fe wnaethom sylweddoli'n fuan y byddai'n rhaid i ni weithio'n agos iawn gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i frysbenno pob ymholiad a gawsom. Drwy Gyfnewidfa Cymunedol Ddigidol Sir Fynwy fe wnaethom gysylltu'n ddigidol i gynyddu'r cyfleoedd hyn i'r eithaf, gan hefyd ddod â'n partneriaid Trydydd Sector i'r berthynas, gan sicrhau fod gennym yr uchafswm o gefnogaeth wirfoddol ac arbenigol ar gael. Mae hyn wedi cynnwys 76 o gydweithwyr o 15 o wahanol dimau a 3 sefydliad allanol. Gwnaed 765 o gysylltiadau, gyda 227 o wirfoddolwyr yn trin 537 cais am help.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awr yn ystyried mabwysiadu dull seiliedig ar le at weithio partneriaeth, gyda ffocws ar atal ac ymyriad cynnar. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi llywodraethiant a chyfeiriad i'r timau, gan sicrhau fod yr adroddiad yn aml-asiantaeth, heb fod yn dyblygu gwaith ac wedi'i gydlynu gymaint ag sydd modd. Mae pwyslais ar weithio llwyddiannus drwy'r Rhwydwaith Rhithiol yn bwysig cyn ail gyfnod clo posibl. Y camau nesaf: teimlwn ei fod yn dull gweithredu seiliedig ar rwydweithiau cymdogaeth a chynnal gweithio traws-gyfarwyddiaeth a'r momentwm sydd gennym ar hyn o bryd. Mae cyflenwi wedi ei dargedu, seiliedig ar ddata a'i yrru gan ddata yn bwysig iawn – rydym ar bwynt lle gallwn ddynodi aelwydydd penodol mewn ardaloedd penodol, yna darparu'r math iawn o gefnogaeth. Rydym hefyd angen gwneud yn sicr fod gan dimau strwythur caniatâd a'r gefnogaeth y maent ei angen, hefyd.

Yn nhermau cydlyniaeth polisi, mae angen i ni ystyried sut olwg sydd ar ein strategaeth cyfiawnder cymdeithasol diwygiedig yng ngoleuni'r newidiadau. Mae'n amlwg fod angen i ni gadw cyfiawnder cymdeithasol wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn edrych yn awr at ostwng anfantais, a sicrhau cyfiawnder rhyng-genhedlaeth. O fewn y strategaeth gynhwysfawr, mae gennym gynlluniau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer mynd i'r afael â tlodi ac anghydraddoldeb a fu'n cael eu datblygu ers peth amser – rydym yn gweithio ar ddogfen a ddylai fod yn barod ar gyfer ymgynghori yn fuan. Mae gennym hefyd Gynllun Gweithredu Datblygu Bwyd gan fod sicrwydd bwyd yn fater pwysig. Rydym yn edrych sut mae hyn yn cysylltu gyda'n cadwyni cyflenwi lleol ac o safbwynt llesiant economaidd. Mae iechyd/llesiant meddwl ac ynysigrwydd cymdeithasol hefyd yn rhan o hyn. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y sector Tai i fynd i'r afael â digartrefedd. Caiff y polisiâu eu hintegreiddio gyda'r Cynllun Cydraddoldeb a'r Fframwaith Gwirfoddoli Cymunedol Gwirfoddolwyr.

Roedd cynnig yn gynharach yn y flwyddyn gan y Cynghorydd Batrouni am yr angen am thema benodol yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ac Anghydraddoldeb. Rydym wedi ailffocysu rôl Judith Langdon a Ryan Coleman, sy'n edrych nawr ar y thema o sicrhau ffyniant ac atal ein dinasyddion rhag profi tlodi. Fodd bynnag, er ein hymdrechion sylweddolwn bydd adegau ym mywydau pobl lle byddant yn profi caledi ariannol. Lle mae hyn yn digwydd byddwn yn dod ynghyd i roi cefnogaeth i sicrhau fod y profiadau mor fyr, anaml ac mor hylaw ag sydd modd. Byddwn yn helpu pobl i ddod allan yn fwy cydnerth o'r profiad hwnnw.

Mae llawer iawn o ddata tu ôl i'r hyn y bu'r swyddogion Langdon a Coleman yn gweithio arno. Y blaenoriaethau yw sgiliau cyflogadwyedd a cymorth cyflogaeth, tlodi mewn gwaith, iechyd meddwl a chefnogaeth emosiynol, cefnogaeth deg ar gyfer tlodi unigrwydd ac atal argyfwng. Ffocws ein gweithgareddau yw cefnogaeth i unigolion, teuluoedd ac aelwydydd i adeiladu hunan-gydnerthedd, creu cymdogaethau llewyrchus a chefnogol i alluogi cymunedau i adeiladu cydnerthedd lleol; gweithio tuag at sir gysylltiedig lle gall pobl a chymunedau ffynnu a gostwng anghydraddoldeb; a defnyddio ein pwysau i ddylanwadu ar achosion strwythurol tlodi ac anfantais, gan gydweithio i wella cyfleoedd a ffyniant i bawb.

Rydym yn ymgynghori nawr gyda'n partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i weithredu strwythur gwaith seiliedig ar le, a diwygio ein strategaeth Cyfiawnder Troseddol i gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghori Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Her:

Atebodd y swyddog Judith Langdon gwestiynau gan aelodau:

Mae'r strategaeth yn siarad am drechu anghydraddoldeb – pa fath o 'anghydraddoldeb' mae hyn yn cyfeirio ato?

Gallai 'anghydraddoldeb' gynnwys nifer eang o feysydd. Ar hyn o bryd mae'n fyrfodd am 'anghydraddoldeb incwm'. Rydym yn ffodus i gael mwy o ddata ar gael ar hynny, sy'n ei gwneud yn rhwyddach i ddangos maint yr anghydraddoldeb mewn ffordd weledol. Felly dyna yw ein prif ffocws, er efallai yn bwysicach yw'r profiad byw fel canlyniad i'r anghydraddoldeb hwnnw. Byddwn felly'n edrych ar agweddau tebyg sut y caiff anghydraddoldeb incwm ei ddangos mewn anfantais addysgol, ansicrwydd bwyd ac yn y blaen.

Wrth 'drechu tlodi', pwy ydyn ni'n eu diffinio fel tlawd?

Mae hwn yn fater cymhleth. Mae mesurau safonol a ddefnyddir o ran incwm isel, naill ai dan 50% neu 60% o incwm canolrif, ond nid yw hyn o reidrwydd yr un peth â 'thlodi'. Y rheswm pam nad oes unrhyw un diffiniad a gytunwyd yn genedlaethol yw ei bod yn bosibl (fel y dangosir, er enghraifft, gan waith Sefydliad Joseph Rowntree) i fod dan 60% ond fel un aelwyd gyda gwariant cymharol isel, nad yw hyn o reidrwydd yn gyfystyr â thlodi. Yn yr un modd, gall pobl fod sy'n nes tuag at y trothwy y bydd eu profiadau byw yn nes i'r hyn a adnabyddwn ni fel tlodi. Rydym wedi trafod hyn fel grŵp partneriaeth, gobeithio, pan ddaw'r cynllun gweithredu ymlaen i gefnogi'r strategaeth, byddwn yn ehangu ar ddealltwriaeth a gaiff ei rhannu o'r hyn a olygwn wrth 'dlodi'.

A oes cyllideb benodol ar gyfer dau swyddog newydd, a sut mae'n gweithio?

Nid oes cyllideb benodol wedi'i dynodi ar gyfer y maes gwaith hwn ond mae cryn dipyn o adnoddau sy'n eistedd tu ôl i'r gwaith hwnnw sy'n trin tlodi ac anghydraddoldeb. Yn neilltuol, fel y soniodd Cath Fallon, byddwn yn edrych ar ailgomisiynu'r Grant Tai a Cymunedau dros tua'r 6 mis, sydd ag adnodd sylweddol tu ôl iddo. I raddau helaeth mae'n fater o ddefnyddio a chymhwyso ein hadnoddau yn ddeallus i gael yr effaith orau bosibl.

Pryd fydd y pwyllgor yn gweld y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, fel y gallwn ddal yr aelod o'r Cabinet a'r swyddog i gyfrif?

Mae hyn yn gyflwyniad lefel uchel. Mae llawer iawn o ddata tu ôl iddo. Pan ddaw'r cynllun gweithredu llawn ymlaen fel rhan o'r strategaeth, gwelir yn glir fod llawer o ddata Dangosyddion Perfformiad Allweddol ynddo.

Y tueddiad newydd, fel y dangosir yn y ddau adroddiad diweddar gan IFS a'r Comisiwn Cyfiawnder Cymdeithasol, yw bod anghydraddoldeb incwm yn gostwng ond bod cynnydd enfawr mewn anghydraddoldeb cyfoeth. A fyddwch yn ystyried y broblem yma?

Byddwn, mae hwn yn bwynt pwysig iawn yr ydym yn ei gydnabod ac y byddwn yn bendant yn ei ystyried yn ein gwaith.

Mae tai yn allweddol: mae tlodi plant yn dyblu pan gaiff costau tai eu hystyried, er enghraifft, a yw'r maes yn cael y sylw angenrheidiol?

Mae tai yn hanfodol ar gyfer ansawdd byw da. Y flaenoriaeth yw set lefel uchel o feysydd ar gyfer gweithredu ar unwaith. Mae llawer o waith presennol sy'n mynd rhagddo. Mae'r Grant Tai a Chymunedau yn amlygu fod tai yn sylfaen i lawer iawn o'r gwaith hwn, felly ni ddylid dehongli absenoldeb y gair 'tai' yn y rhestr o flaenoriaethau fel bod yn dangos diffyg sylw i'r maes tai. Dylai hyn fod yn amlwg yn y cynllun gweithredu llawn.

Pam nad oes unrhyw sôn am symudedd cymdeithasol? Ynglŷn ag addysg, a ydym yn ystyried gweithredu cynlluniau gweithredu unigol yn llawer cynharach nag oed TGAU, gyda'r gobaith o welliant nes ymlaen yn ein ffigurau, wrth i'r plant hynny dyfu?

Mae un o'r ddwy swyddog a fu'n gweithio ar dlodi ac anghydraddoldeb wedi gweithio ar raglen ysgolion bro hyd yma, maes lle'r ydym wedi bod ar y blaen. Rydym wedi edrych sut y gallwn ddefnyddio holl asedau cymuned leol i helpu cefnogi addysg a chyfleoedd bywyd y lleiaf breintiedig yn ein hysgolion. Bu'r rhaglen yn rhedeg am tua 18 mis ac oherwydd ei phwysigrwydd, daethpwyd â'r swyddog i'r gwaith tlodi hwn. Mae'n integreiddio gwaith y rhaglen i'r gwaith ehangach hwn ar dlodi ac anghydraddoldeb. Cafodd set o Ddangosyddion Perfformiad Cydraddoldeb eu datblygu am addysg, bylchau cyrhaeddiad prydu ysgol am ddim, sy'n rhan amlwg o'r strategaeth gynhwysfawr.

Crynodeb y Cadeirydd:

Bu gwaith swyddogion yn ystod y pandemig yn rhagorol wrth gefnogi cymunedau ar draws Sir Fynwy. Cododd y Cynghorydd Batrouni nifer o bwyntiau: dymunai wybod manylion y partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw, a gofynnodd am y diffiniad o anghydraddoldeb yr ydym yn ei weithredu. Fe wnaethom drafod mater cymhleth sut y diffiniwn fod yn 'dlawd', symudedd cymdeithasol a'r gyllideb ar gyfer y ddau swyddog. Hoffem weld Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn eu lle a gellir dal aelodau'r Cabinet i gyfrif. Cadarnhaodd Cath Fallon y bydd swyddogion yn symud ymlaen â'r pwyntiau hyn pan fo cynlluniau gweithredu unigol sy'n eistedd tu ôl i'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol gynhwysfawr yn dod trwodd.

4. Adroddiad Monitro'r Gymraeg 2019/20 - Craffu ar Berfformiad.

Cyflwynodd y swyddog Alan Burkitt adroddiad llafar ar y Gymraeg yn Sir Fynwy. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ym Mesur y Gymraeg 2011, yn cynnwys rhoi trosolwg o berfformiad i Gomisiynydd y Gymraeg; rydym wedyn yn derbyn ymateb gydag asesiad y Comisiynydd ei hun. Mae'r gwasanaeth cyfieithu yn brysur iawn; ar gyfer hynny, mae llawer o'r 176 o safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw yn cynnwys rhoi gwybodaeth, dogfennau ac yn y blaen. Mae ein gwasanaeth yn rhagorol, a chaiff ei redeg gan Becky Davies sy'n dosrannu ac yn cofnodi. Tua 18 y mis fe wnaethom amcangyfrif ein bod yn cyfieithu 1.6 miliwn o eiriau y flwyddyn, sy'n sylweddol fwy na chyn cyflwyno safonau'r Gymraeg. Mae'r defnydd gan staff yn

rhagorol – anaml iawn mae dogfen wedi mynd allan heb gyfieithiad Cymraeg. Mae'r wefan yn hollol ddwyieithog.

Mae cynllunio gweithlu yn ofyniad yn edrych pa adnoddau sydd ar gael o fewn adrannau, yn ymarferol archwiliad o bwy yn yr adrannau hynny sydd â sgiliau yn y Gymraeg, o rhugl i lawr i ddysgwyr. Yn ddiweddar mae Sir Fynwy wedi nodi 'Sgiliau yn y Gymraeg – Dymunol' o ystyried fod gennym 10,000 o breswylwyr yn siarad Cymraeg yn Sir Fynwy, nid oes unrhyw swydd lle na fyddai sgiliau yn y Gymraeg yn dymunol. Y mater allweddol yw bod nifer staff ar y rheng flaen h.y. swyddi a hysbysebwr fel 'Sgiliau yn y Gymraeg – Hanfodol' yn isel. Mae hyn yn dod â heriau. Mae eisoes yn anodd penodi i rai swyddi yn Sir Fynwy, yn arbennig mewn Gofal Cymdeithasol ac nid oes gennym drosiant mawr o staff. Mae felly'n anodd meithrin yr adnodd critigol hwnnw. Mae 34 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg nad ydynt yn staff ysgol allan o tua 2,000. Cynhaliwyd cyfarfod Adroddiad Sicrwydd Ansawdd yr wythnos honno lle dynododd y comisiynydd fod nifer y staff rheng-flaen mewn rhai awdurdodau lleol yn wael. Mae 34 yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cyngor nawr, o gymharu â 28 pan ddechreuais ar y swydd. Mewn 36 swydd wag y llynedd, dim ond un a ddynodwyd fel swydd lle roedd y Gymraeg yn hanfodol.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion swyddogol, sy'n amlwg yn rhywbeth cadarnhaol. Dim ond 1 gŵyn a gawsom erioed a gwnaethom ei herio'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai cwynion – rwy'n aml yn derbyn negeseuon e-bost yn cyfeirio at wahanol faterion, yr ydym yn eu trin ar unwaith.

Yn ogystal â recriwtio, problem fawr yw nad ydym yn rhagweithiol gyda'r gwasanaethau a gynigiwn. Os oes rhywun yn gofyn am rywbeth, rydym wedyn yn ceisio ei ddarparu, yn hytrach na chynnig pethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y lle cyntaf. Mae'r Comisiynydd, fel rhan o'i adroddiad, yn cynnal gweithgaredd 'siopwr dirgel' lle caiff staff croesawu eu hannerch yn Gymraeg ac os nad oes ymateb effeithlon, y casgliad yw fod y sefydliad yn brin yn ei sgiliau. Mae hyn yn rhywbeth mae angen i ni edrych o ddifrif arno ar gyfer adolygiad yn y dyfodol. Y newyddion da yw fy mod yn credu fod popeth arall yn ei le yma, yn cynnwys brwdfrydedd a chefnogaeth swyddogion. Yn ffodus, yr agwedd yn Sir Fynwy os oes rhywbeth angen ei wneud, y caiff hynny ei wneud yn iawn; mae hyn yn rhagorol ond mae angen i ni fod yn fwy rhagweithiol.

Her:

Yng nghyswllt recriwtio, pam fod 'Dim angen y Gymraeg' wedi ei nodi ar rai hysbysebion swydd?

Bu'r opsiwn hwnnw yno bob amser. Adolygais y materion hyn gydag Adnoddau Dynol, gan fod llawer yn dweud nad oes angen sgiliau yn y Gymraeg. Cytunwn fod gan bawb yng Nghymru allu yn yr iaith, pa bynnag mor fach, ac rydym felly wedi symud ymaith o ysgrifennu hyn. Mae bellach fwy o ffocws ar 'Dymunol'. Mae'r rhai gyda sgiliau yn y Gymraeg yn tueddu i beidio gael eu penodi am y rheswm hwnnw, gyda'u gallu yn yr iaith yn cael ei ddarganfod yn ddiweddarach.

Sut ydyn ni'n cymharu gydag awdurdodau eraill ar y Gororau?

Mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg mewn rhan o Bowys, yn ymestyn o Ystradgynlais i Fachynlleth, ond mae llai o siaradwyr yr agosaf yr ewch at Glawdd Offa. Serch hynny, maent yn dal i fod heb addysg cyfrwng Cymraeg. Mae llawer mwy o siaradwyr yng Nghaerffili, er nad oes llawer yng Nghasnewydd, ac mae'n debyg fod gennym ni fwy o siaradwyr Cymraeg nag sydd ganddynt ym Mlaenau Gwent. Mae'n debyg ein bod yn debyg i Dorfaen, ac felly'n isel drwyddi draw. Rydym yn colli rhywbeth pa mae plant yn gadael addysg Gymraeg: os oes ganddyn nhw sgiliau yn y Gymraeg, fe ddylem fod yn dweud wrthyn nhw eu bod eu heisiau yma yn Sir Fynwy. Mae'n sgil hanfodol mewn achosion, fel, er enghraifft, gleifion dementia sy'n cael trafferthion i gyfathrebu yn Saesneg oherwydd eu bod wedi dychwelyd i'r Gymraeg. Mae'n rhywbeth o sefyllfa cyw-ac-wy o'n rhan ni yn cynnig y Gymraeg a phobl yn gofyn am hynny.

Mae'r adroddiad yn sôn fod 10,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Sir Fynwy, tua 10% o'r boblogaeth, tra bod gan Lywodraeth Cymru nod o 30% o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. A fedrir cyflawni'r nod hon yn Sir Fynwy?

Mae Llywodraeth Cymru eisiau 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef tua traean o'r boblogaeth. Y cyfrifiad yw'r ffigur mwyaf cywir ar gyfer siaradwyr, ond nid ydyn ni wedi cael cyfrifiad ers 2011, yn seiliedig ar ystadegau 2010. Bryd hynny roedd 8500 o siaradwyr Cymraeg, 9.9% o boblogaeth Sir Fynwy. Roeddem yn un o ddim ond dau le a welodd gynnydd ers y cyfrifiad blaenorol yn 2001. Mae'n her enfawr i'r sir. Bydd yr ysgol gynradd newydd yn sicr yn help. Mae'r nifer o bobl sy'n dysgu drwy'r Canolfannau Addysg Oedolion a Choleg Gwent yn rhagorol. Rydyn ni hefyd yn cynnig pecyn hyfforddiant cynhwysfawr i staff, gyda tua 70 yn manteisio ar y cyfle y llynedd. Bu'n llai eleni oherwydd Covid-19. Mae angen i ni ddal ati fel yr oeddem, gyda phwyslais ar hyrwyddo'r iaith, a cheisio cael mwy o staff sy'n siarad Cymraeg yn yr awdurdod. Yna, bydd mwy o bobl yn ei defnyddio ac yn ei gwerthfawrogi. Gobeithio y bydd cynnal yr Eisteddfod yma wedi helpu. Mae'r ddemograffeg am fwy na dim ond dysgwyr, gan fod llawer o bobl yn symud i'r ardal yma o rannau eraill o Gymru, gan ddod â'u sgiliau yn y Gymraeg gyda nhw, ac yn ffurfio llawer o'n niferoedd. Hefyd, mae pobl o Loegr sydd wedi dysgu Cymraeg.

Pan mae'r Comisiynydd yn edrych ar Sir Fynwy, a yw'n rhoi ystyriaeth fod gennym lawer o bobl o Fryste yn byw yma, fydd yn effeithio'n sylweddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir?

Mae hynny'n bwynt da iawn. Rydyn ni wedi cwrdd gydag Aled Roberts, y Comisiynydd newydd, sydd ei hun yn dod o sir ar y Gororau ac felly'n gyfarwydd gyda'r heriau. Mae Safonau eisiau i bawb gyrraedd yr un lefel ar yr un pryd, ac rwyf bob amser wedi teimlo nad yw hynny'n ymarferol. Oherwydd y pwynt rydyn ni'n dechrau ohono, efallai na fyddwn byth yn cyrraedd lefel siroedd eraill tebyg i Geredigion. Rwy'n credu fod y Comisiynydd newydd yn gwerthfawrogi bod Sir Fynwy ac awdurdodau eraill y De Ddwyrain yn gwneud gwaith da iawn gydag adnoddau cyfyngedig. Rwy'n credu y byddai angen iddo roi ystyriaeth i Fryste ond os caiff y plant hynny addysg Gymraeg dda yna mae ganddynt yr un cyfle ag unrhyw un arall o siarad yr iaith. Rwy'n credu fod gan y Gomisiynydd ddealltwriaeth dda o'r materion demograffeg yma yng Nghymru, ac mae'n gwybod ein bod yn gwneud ein gorau glas yn Sir Fynwy. Lle y gallai, ac y dylai, ein gwthio yw ar elfen bod y Gymraeg yn 'hanfodol', hynny yw cynyddu nifer y siaradwyr yn ein gweithlu, lle rydym yn rhoi cyfle i'r miloedd o blant a gafodd addysg Gymraeg gyfle i weithio i'n hawdurdod. Byddai hon yn feirniadaeth ddilys, ynghyd â pha mor ragweithiol ydym yn y gwasanaethau a gynigiwn.

Roedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn arfer byw yn Llanofar, a wyddom os ydi hynny'n dal i fod yn wir, ac i ba raddau?

Na, rwy'n gwybod fod Arglwyddes Llanofar yn gyfaill mawr i'r Gymraeg ond ni chredaf fod llawer o siaradwyr yno nawr. Roedd ysgol Gymraeg yn arfer bod yno. Mae'r niferoedd mwyaf o amgylch yr ysgolion Cymraeg: y Fenni ac ardal Cil-y-coed.

Crynodeb y Cadeirydd:

Cododd y Cynghorydd Eason fater pwysig yr Eisteddfod yn hybu'r Gymraeg. Gwnaeth y Cynghorydd Batroumi bwynt dilys am i'r Comisiynydd roi ystyriaeth i leoliad Sir Fynwy a'n mewnlif o bobl o Fryste. Nododd hefyd waith rhagorol y Swyddog Burkitt yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Fynwy.

5. Claddedigaethau - Ymchwiliad gan Aelodau - adborth llafar.

Cyflwynodd y Cynghorydd Val Smith adroddiad llafar (anfonir yr adroddiad ysgrifenedig llawn at aelodau yn nes ymlaen). Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwyntiau niferus, er mwyn codi'r

cwestiwn o p'un a fedrai Cyngor Sir Fynwy ddarparu gwasanaeth profedigaeth cyflawn i breswylwyr. Mae cynghorau mewn lle da i wneud achos busnes cryf: mae Cyngor Bwrdeistref Kettering a Chyngor Wigan yn enghreifftiau llwyddiannus. Mae angladdau yn aml yn bryniad 'argyfwng' i bobl ac mae 'tloidi' angladdau yn cynyddu: nid yw pobl yn medru talu'r costau cysylltiedig, gan fenthycu (yn cynnwys benthyciadau diwrnod talu) a mynd i ddyled i wneud hynny. Mae Gwasanaeth Profedigaeth Caerdydd yn enghraifft arall o raglen lwyddiannus sy'n helpu cymunedau i ddelio gyda'r cyfnod anodd hwn.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried diffyg safonau ymddygiad neu hyfforddiant i ddod yn gyfarwyddwr angladdau, a phroblem gynyddol gofod ar gyfer claddedigaethau, ynghyd â chwmnïau arloesol tebyg i 'Recompose' yn yr Unol Daleithiau sy'n newid y broses o ddelio gyda chyrrff. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng cynghorau mewn cost angladdau a chladdedigaethau, a hefyd y cynnydd mawr mewn prisiau'n gyffredinol yn y degawd diwethaf. Mae hysbysiadau marwolaeth yn broblem ychwanegol, gyda theuluoedd yn gorfod hysbysu nifer fawr o asiantaethau am farwolaeth anwyliad; mae cynllun 'Dweud Wrthym Unwaith' y llywodraeth yn gwneud cynnydd rhagorol ar hyn. Fel cyngor, mae angen i ni edrych os gallwn wneud gwaith gwell mewn gwneud trefnu angladdau mor rhwydd a di-straen ag sydd modd, ac yn gweld hyn fel cynllun defnyddiol.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Cyngorydd Smith am yr adroddiad hwn. Mae'r pwnc hwn wrth gwrs yn bwysig i bawb, gan y bydd pawb ohonom yn wynebu'r pryderon hyn yn ein bywydau, efallai sawl gwaith. Mae'r amrywiaeth o'r opsiynau sydd ar gael yn syndod – compostio ac yn y blaen. Mae cyfrannu at wyddoniaeth yn opsiwn pwysig arall. Mae'r amrywiad mewn costau hefyd yn syndod. Dymunai'r Cyngorydd Easson wneud y pwynt dilynol am Fynwent Dewstow yng Nghil-y-coed, a fu'n llwyddiannus iawn; roedd yn y rownd derfynol ar gyfer Mynwent Daclusaf 2016 yn y Gwobrau Angladd Da ac mae ganddi Faner Werdd. Mae cost agor bedd hanner pris unrhyw le arall yn Sir Fynwy. Mae'r awdurdod lleol yng Nghil-y-coed wedi bod yng ngofal y fynwent ers 1962 ac mae bron yn llawn. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt i brynu llain o dir uwchben y fynwent ar gyfer claddedigaethau ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod. Mae felly'n enghraifft gref o arfer da.

6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

7. Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 12 Mawrth 2020.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020.

8. Cyfarfod ar y Cyd - Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygu a Phwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 21 Gorffennaf 2020 (i ddilyn).

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2020.

9. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf.

Cafodd y Rhaglen Waith ei diweddarau ers anfon yr agenda. Un ychwanegiad yw Seminar Aelodau yr wythnos nesaf ar Wastraff ac Ailgylchu, a ddilynir ar 28 Chwefror gan gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu ar newidiadau i Wastraff ac Ailgylchu cyn penderfyniad gan y Cyngor ar 7 Hydref. Mae'r ffordd y gallwn dderbyn cyflwyniadau gan y cyhoedd, gan nad ydym yn cwrdd yn y siambr, yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Mae hefyd gyfarfod ar y cyd arbennig am 19 Hydref yng nghyswllt cynlluniau Adferiad Cyllideb. Gwahoddir holl aelodau Craffu. Bydd angen trefnu cyfarfod arbennig ar y cyd gydag Economi a Datblygu ddiwedd mis Hydref i edrych ar yr adolygiad meysydd parcio.

Bydd y cyfarfod ar 12 Tachwedd yn ystyried diogelu'r cyhoedd a'r ymateb i Covid, a chofrestru a'r ymateb i Covid. Bydd cyfarfod olaf y flwyddyn ar 17 Rhagfyr yn edrych ar gynlluniau Cydraddoldeb Strategol a thoiledau cyhoeddus, gan graffu'r broses o weithredu strategaeth, cyn diweddaru Llywodraeth Cymru.

10. Blaenraglen Waith y Cabinet a'r Cyngor

11. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

The meeting ended at **11.26 am**